**Y Pwyllgor Deddfau**

**Dyddiad:** 4 Ebrill 2006
**Amser:** 9.30 am
**Lleoliad:** Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
**Teitl:** Craffu ar Ddeddfwriaeth yn y Cynulliad

**EDT(2) 05-06 (p.4)**

**Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD A THRAFNIDIAETH**

**Dyddiad:** 16 Mawrth 2006
**Amser:** 9.00 - 12.20
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, Senedd, Bae Caerdydd
**Teitl:** Mesur Diwygio Deddfwriaeth a Rheoleiddio

**Diben**

1. Hysbysu'r Pwyllgor ynghylch hynt y Mesur Diwygio Rheoleiddio a Deddfu. Bydd Adrian Treharne, Rheolwr Prosiect Swyddfa'r Cabinet ar gyfer y Mesur, yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor a bydd ar gael i ateb cwestiynau'r Aelodau.

**Crynodeb**

2. Ar hyn o bryd, mae gan y Llywodraeth bwer o dan Ddeddf Diwygio Rheoleiddio 2001 (Deddf 2001) i lunio gorchmynion sy'n gwaredu beichiau rheoleiddio, yn amodol ar rai cyfyngiadau.

3. Mae pwer presennol y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio o dan Ddeddf 2001 yn gyfyngedig ac yn ddiangen o gymhleth. Mae hyn wedi cyfrannu at y nifer siomedig a'r gyfradd siomedig o ddiwygiadau sydd wedi'u cyflawni o dan y Ddeddf.

4. Tra bod Deddf 2001 yn mynd trwy'r Senedd addawodd Llywodraeth y DU y byddai'n adolygu'r Ddeddf yn 2004. Bryd hynny, nid oedd y Ddeddf wedi'i defnyddio i'r graddau a ragwelwyd, felly cytunwyd â'r Pwyllgorau perthnasol yn y Senedd y byddai'r adolygiad yn cael ei ohirio hyd nes y byddai rhagor o ddefnydd yn cael ei wneud o'r Ddeddf.

**Y cefndir i'r Mesur**

5. Mae agenda Gwell Rheoleiddio y Llywodraeth yn cynnwys rhoi cynigion a amlinellwyd mewn dau adroddiad ar waith. Roedd adroddiad y Tasglu Gwell Rheoleiddio: *Less is More: Reducing Burdens, Improving Outcomes* yn cynnwys argymhellion ar gyfer lleihau beichiau gweinyddol a chyflwyno'n raddol raglenni symleiddio ar draws Whitehall. Mae *“Reducing administrative burdens: effective inspection and enforcement” (*Adroddiad Hampton) yn

cynnwys egwyddorion ar gyfer gorfodaeth agored a chymesur gan reolyddion. Bydd gofyn diwygio deddfwriaeth ynghyd â rheoliadau at ddiben gweithredu'r adroddiadau hyn.

6.  Diben y mesurau a gynhwysir yn y Mesur yw ei gwneud yn haws ac yn gyflymach i ddiwygio, diddymu neu ddisodli deddfwriaeth sydd wedi dyddio, sy'n ddiangen neu sy'n orgymhleth drwy orchymyn, gan anelu at greu gwell amgylchedd rheoleiddio. Bydd hefyd yn ei gwneud yn bosibl i argymellion Comisiwn y Gyfraith gael eu gweithredu, gan gynnwys y rhai sy'n diwygio’r gyfraith gyffredin. Bydd y mesurau yn galluogi'r uno a argymhellir yn Adroddiad Hampton*.* Bydd y Mesur hefyd yn ei gwneud yn bosibl i roi sail statudol i egwyddorion rheoleiddio cyffredinol, cyhoeddi Cod Ymarfer statudol a symleiddio'r broses o droi rhwymedigaethau cyfreithiol Ewropeaidd yn ddeddfwriaeth ddomestig.

7.  Mae'r Mesur wedi cael ei groesawu'n fawr gan gynrychiolwyr busnes.  Ceir amlinelliad o gynigion y Llywodraeth yn Atodiad 1.  Gellir gweld y Mesur drwy'r cyswllt isod:
http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200506/cmbills/111/2006111.htm

**Y Goblygiadau i Gymru**

8.  Mae'r Mesur yn berthnasol i Gymru ac mae'n cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud yn benodol â phwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

- Mae Rhan 1 o'r Mesur yn cynnwys darpariaeth sy'n pennu na all gorchymyn wneud unrhyw ddarpariaeth yn trosglwyddo swyddogaeth i'r Cynulliad, yn addasu neu'n gwaredu swyddogaeth gan y Cynulliad, neu'n ailsefydlu unrhyw ddarpariaeth sy'n trosglwyddo swyddogaeth i'r Cynulliad, heb gytundeb y Cynulliad.

- Lle nad yw cytundeb y Cynulliad yn ofynnol, mae'n rhaid i Weinidog y Goron sy'n cynnig llunio gorchymyn o dan y pwer yn Rhan 1 ymgynghori â'r Cynulliad (yn unol â chymal 11) lle mae'r cynigion, fel y maent yn berthnasol i Gymru, yn ymwneud ag unrhyw fater y mae'r Cynulliad yn arfer swyddogaethau mewn perthynas ag ef.

- Yn Rhan 2 o'r Mesur, mae cymal 22 yn galluogi Gweinidog y Goron i bennu, trwy orchymyn, pa swyddogaethau rheoleiddio y mae'r Egwyddorion a'r Cod Ymarfer yn ymdrin â hwy. Serch hynny, ni all Gweinidog y DU bennu swyddogaeth reoleiddio na ellir ond ei harfer yng Nghymru neu nad yw ond yn berthnasol i Gymru: yn hytrach caiff y pwer ei drosglwyddo i'r Cynulliad a gall unrhyw swyddogaethau o'r fath gael eu pennu, trwy orchymyn, gan y Cynulliad.

- Mae Rhan 3 o'r Mesur yn ymdrin â deddfwriaeth yn ymwneud â'r Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd.  Mae Cymal 26 yn cynnwys diwygiad i Ddeddf Llywodraeth Cymru, yn sgîl y diwygiad a wnaed gan is-adran (1). Mae'r

Ddeddf yn cynnwys darpariaeth bellach sy'n pennu y gall pwerau Gweinidog y Goron i lunio gorchymyn er mwyn diwygio deddfiadau neu is-ddeddfwriaeth yn ymwneud â rheoliadau a wnaed o dan adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd 1972, gan gynnwys cyfeiriad at unrhyw orchymyn, rheolau neu gynllunio, gael eu harfer gan y Cynulliad yn ogystal, i'r graddau y maent yn berthnasol i fater y gall y Cynulliad arfer swyddogaethau mewn perthynas ag ef. Bydd y pwer hwn yn cael ei arfer drwy offeryn statudol.

**Cydymffurfio**

9. Nid oes unrhyw faterion sy'n ymwneud â rheoleidd-dra na phriodoldeb.

**Goblygiadau Ariannol**

10. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol.

**Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor**

11. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys a hynt y Mesur.

**Enw: Andrew Davies**
**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth**

**Swyddog Cyswllt:**
Julie Hanley
Uned Fusnes yr Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth
Est 3272

**Atodiad**

**Cynigion y Mesur Diwygio Rheoleiddio**

Pwerau

Pwer cyffredinol i lunio gorchmynion

- Diwygio deddfwriaeth, neu
- Gweithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith, gan gynnwys y rhai sy'n diwygio'r gyfraith gyffredin.

Amodau

Ni ellir ond llunio gorchymyn os cred y Gweinidog sy'n gyfrifol amdano:

- Nad yw'n gwaredu unrhyw ddiogelwch angenrheidiol
- Nad yw'n atal unrhyw un rhag parhau i arfer unrhyw hawliau neu ryddid y gallent yn rhesymol ddisgwyl parhau i'w harfer
- Y bydd yn ysgogi effeithiau sy'n cyd-fynd â'i nod
- Ei fod yn sicrhau cydbwysedd teg rhwng budd y cyhoedd a budd unrhyw berson y mae'n effeithio'n andwyol arno/arni
- Ei fod yn ddymunol, yn sgîl annigonolrwydd cymharol yr atebion nad ydynt yn rhai deddfwriaethol i'r broblem y mae'r gorchymyn wedi'i lunio i'w datrys neu ei lleihau.

Trethiant, cosbau troseddol, chwilio a mynediad trwy rym

Ni all gorchymyn:

- Orfodi na chynyddu trethiant
- Creu cosbau troseddol newydd uwchben terfyn penodol, na chynyddu cosbau troseddol y tu hwnt i'r terfyn hwnnw (noder, nid yw hyn yn berthnasol i orchmynion sy'n gweithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith)
- Creu pwerau newydd mewn perthynas â: mynediad trwy rym, chwilio neu atafaelu; na chymell pobl i roi tystiolaeth (noder, nid yw hyn yn berthnasol i orchmynion sy'n gweithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith)

Is-ddirprwyo

Gall gorchymyn creu pwerau deddfu newydd i'w harfer drwy weithdrefnau arferol Offerynnau Statudol

Ymgynghori

Mae'n rhaid i Weinidog sy'n cynnig llunio gorchymyn ymgynghori ynghylch y cynigion oni bai y gellir dibynnu ar ymgynghoriad blaenorol gan Gomisiwn y Gyfraith.

Dogfennau Esboniadol

- Mae'n rhaid i'r Gweinidog gyflwyno gorchymyn drafft ynghyd â dogfen esboniadol gerbron y Senedd yn egluro i ba raddau (os o gwbl) y bydd y Gorchymyn yn hybu ymhellach rai nodau o safbwynt gwell rheoleiddio:
  - ➢ Gwneud effaith gyffredinol y ddeddf ar y bobl y mae'n effeithio arnynt yn llai beichus
  - ➢ Cynyddu effeithiolrwydd neu effeithlonrwydd y bobl y mae'r gorchymyn yn effeithio arnynt

- Symleiddio neu foderneiddio’r gyfraith
- Gwaredu anghysondebau ac anomaleddau yn achos gorchymyn sy’n gweithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith. Nid oes yn rhaid i’r ddogfen esboniadol gynnwys yr esboniad hwn ond mae’n rhaid iddi egluro o le y mae’n tarddu.
- Dylai’r ddogfen esboniadol hefyd egluro pam y cred y Gwenidog fod yr amodau, gan gynnwys y camau diogelu sy’n deillio o’r Ddeddf Diwygio Rheoleiddio, wedi’u bodloni, ac asesu effeithiau’r gorchymyn.

<u>Craffu Seneddol</u>
- Gall y Gweinidog argymell bod gweithdrefn negyddol, gweithdrefn gadarnhau neu weithdrefn uwchgadarnhau yn cael ei chynnal mewn perthynas â gorchymyn drafft
- Gall y pwyllgorau craffu Seneddol ei gwneud yn ofynnol i graffu ar lefel uwch na’r hyn a argymhellwyd gan y Gweinidog ddigwydd, a bydd y gorchymyn drafft yn mynd rhagddo yn unol â’r craffu ar y lefel uchaf sy’n ofynnol gan un o’r pwyllgorau.

**Cynigion y Cod Cydymffurfiaeth***
<u>Cynnwys</u>
Mae’r Mesur yn cynnwys y canlynol:
- Darpariaeth yn cyfundrefnu egwyddorion rheoleiddio cyffredinol
- Pwer i lunio Cod Ymarfer a fydd yn rhoi sail statudol i’r Cod
- Pwer i restru’r swyddogaethau rheoleiddio y mae’r Egwyddorion a’r Cod yn ymdrin â hwy

<u>Diffiniad o’r swyddogaethau rheoleiddio</u>
Gall y gorchymyn rhestru bennu unrhyw swyddogaeth sy’n gorfodi gofynion, neu sy’n ymwneud â sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion, ynghylch unrhyw weithgaredd.

<u>Eithriadau</u>
Ni all y gorchymyn rhestru restru:
- Swyddogaethau datganoledig (er y gall restru swyddogaethau a gadwyd yn ôl sy’n cael eu harfer yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a’r Alban)
- Swyddogaethau sy’n cael eu harfer gan yr heddlu, rheoleiddwyr economaidd (a restrir yn y Mesur), a rhai awdurdodau sy’n erlyn.

<u>Craffu Seneddol</u>
- Cyn y bydd Gweinidog yn llunio gorchymyn rhestru, mae’n rhaid iddo ymgynghori â’r awdurdodau y mae eu swyddogaethau yn cael eu rhestru, ac â phobl eraill perthnasol. Yn dilyn hynny mae’n rhaid i’r Senedd gymeradwyo’r gorchymyn.
- Cyn y bydd y Gweinidog yn cyflwyno neu’n diwygio Cod Ymarfer, mae’n rhaid iddo ymgynghori â rheoleiddwyr ac â phobl eraill perthnasol, ac yna gyflwyno’r Cod drafft gerbron y Senedd am 40 diwrnod.

* Fersiwn diwygiedig o’r Concordat Gorfodi yw’r Cod Cydymffurfiaeth.